

Gosod mewnblianiad ar gyfer clustiau sy'n sefyll allan

11 Medi 2019

Dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y gellir rhoi'r driniaeth hon. Mae hyn am nad oes tystiolaeth ddigonol ynghylch pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio na pha mor ddiogel ydyw.

Mae clustiau rhai pobl yn sefyll allan yn fwy amlwg nag eraill. Nid yw hyn yn effeithio ar y clyw, ond gall beri gofid os bydd y person yn anhapus â'r ffordd y mae ei glustiau'n edrych. Gan ddefnyddio anesthetig lleol, caiff mewnblianiad bach crom ei osod o dan groen y ddwy glust drwy doriadau bach. Mae'r mewnblianiadau'n aros yno yn barhaol. Y nod yw newid siâp y clustiau fel eu bod yn llai amlwg.

Gall [gwefan y GIG](#) fod yn lle da i gael gwybod mwy. Mae gan [ganllawiau triniaethau ymyriadol](#) NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, egluro'r astudiaeth ymchwil, a dweud wrthyhych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth ac i fod yn rhan o'r astudiaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-ffeithiau? Pa mor debygol ydynt?

- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-3516-1